

Gofalu am Adeiladau Eglwysig Adroddiad Blynyddol 2018



Cynnwys

Tudalen 1	Trosolwg
Tudalen 2	Llanelwy
Tudalen 12	Bangor
Tudalen 18	Tyddewi
Tudalen 26	Llandaf
Tudalen 36	Mynwy
Tudalen 44	Abertawe ac Aberhonddu
Tudalen 50	Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi
Tudalen 52	Cau Eglwysi ac Eglwysi Diangen

Hawlfraint:

Cyhoeddwyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Gorffennaf 2019.
Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Rheolwr Cyhoeddiadau.
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT
Pob llun © Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

Trosolwg

Nod yr adroddiad cyntaf hwn yw dangos y gwaith amrywiol sy'n cael ei wneud i gynnal a gofalu am adeiladau eglwysig sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru.

Rydym yn gweithredu 1296 o adeiladau eglwysig ledled Cymru (70% ohonynt yn adeiladau rhestredig). Mae pob un o'r rhain o dan berchnogaeth ganolog ond yn cael eu rheoli'n lleol. Mae cynulleidfaoedd lleol, drwy eu Cyngor Eglwys, yn gyfrifol am gynllunio, trefnu a chyllido'r gwaith o gynnal a chadw, trwsio a gwella eu heglwys. O ystyried bod llawer o'r adeiladau hyn wedi'u rhestru ac o bwysigrwydd cenedlaethol o ganlyniad, y gwir amdani yw bod pobl leol yn gofalu am asedau sy'n bwysig yn genedlaethol. Gwirfoddolwyr yw mwyafrif y bobl hyn ac mae'r ffaith bod yr adeiladau cymunedol hollbwysig hyn yn dal ar gael i'w defnyddio yn tystio i'w hegni a'u dyfalbarhad.

Mae angen cael caniatâd (neu hawleb) i wneud y rhan fwyaf o waith ar adeiladau eglwysig. Mae ein system hawlebau'n cael ei hystyried yn ddigon cadarn ac yn gyfwerth â'r system seciwlar i gael Esemptiad Eglwysig o Gydsyniad Adeilad Rhestredig (o dan Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018). Mae ceisiadau am hawleb yn destun ymgynghoriad allanol a chyhoeddus

ac mae paneli o gynghorwyr arbenigol o'r enw Pwyllgorau Ymgynghorol Esgobaethau yn craffu'n fanwl arnynt. Mae Canghellor yr Esgobaeth yn gwneud y penderfyniad yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ac yn sgil ymatebion i ymgynghoriad. Caiff hawlebau eu hystyried ar sail esgobaeth gyda phob Esgobaeth â'i Bwyllgor Ymgynghorol ei hun; mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau di-dâl sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd i wneud penderfyniadau sy'n cydbwysu gofynion, sy'n gallu bod yn gystadleuol. Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol yn ganolog i'r system hawlebau ac, fel eglwysi lleol, yn ddibynnol ar gyfraniad gwirfoddolwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r holl geisiadau am hawlebau a gyflwynwyd yn 2018 ym mhob Esgobaeth ac yn dangos y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgorau wrth ystyried cyngor ar bob cynnig.

Rydym wedi cynnwys rhestri o'r hyn a ystyriwn ni yn rhestri 'A' a 'B'. Gan ddefnyddio'n system hawlebau ar-lein, gofynnir i eglwysi lleol gofrestru'r holl waith maent yn ei wneud. Mae rhywfaint ohono'n waith mân nad yw'n gofyn am hawleb (Rhestr A) ond mae cofnodi'r rhain yn gweithredu fel llyfr lòg o'r gwaith a wneir. Mae gwaith arall yn fach a rheolaidd ond angen rhywfaint o fonitro (Rhestr B). Mae'r

rhestr hon yn rhoi'r cyfle i fwrw golwg dros waith syml, a'i alw i mewn i gael hawleb lawn os oes angen. Mae'n rhaid cael hawleb lawn ar gyfer y gweddill.

Mae ymgynghori'n ganolog i'r broses o wneud cais am hawleb; bydd hysbysiad safle a hysbysebion ar y we yn tynnu sylw'r cyhoedd at waith ac mae sylwadau'n cael eu hystyried gan Ganghellor yr Esgobaeth wrth wneud penderfyniad. Weithiau, bydd hyn yn arwain at wrandawriad cyhoeddus i drafod y cynnig.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am eglwysi sydd wedi'u datgan yn rhai diangen yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn anffodus, mae angen rhoi'r gorau i ddefnyddio rhai eglwysi ar gyfer addoliad rheolaidd weithiau; gall hyn fod oherwydd costau trwsio sylweddol neu oherwydd bod ffocws cenhadaeth wedi symud i leoliad arall. Unwaith y bydd eglwys yn ddiangen bydd esemptiad eglwysig yn dod i ben.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'r rhai sy'n dilyn, yn ffordd o atgoffa am yr ymdrechion sylweddol sy'n cael eu gwneud ar bob lefel i ofalu am ein hadeiladau eglwysig. Dylai fod yn gydnabyddiaeth hefyd i'r cyfraniad aruthrol mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i ofalu am y mannau gwerthfawr hyn.

Esgobaeth Llanelwy

Mae'r Esgobaeth yn y gogledd-ddwyrain ac mae'n cwmpasu siroedd Dinbych, y Fflint, Wrecsam, hanner Conwy a rhannau o Wynedd a Phowys.


Mae'r Esgobaeth yn gofalu am 216 o eglwysi, y mae eu hanner yn adeiladau rhestredig gradd I a gradd 2*, sydd wedi'u gwasgaru ledled ei 21 Ardal Cenhadaeth a Bywoliaeth.

Rydym yn deulu o dros 7,000 o addolwyr rheolaidd, gyda 80 o glerigion llawn amser a thros 500 o arweinwyr lleyg. Mae Esgobaeth Llanelwy'n ei theimlo'n anrhydedd i fod yn bresenoldeb Cristnogol ym mhob cymuned, i gerdded gyda phobl ar daith bywyd ac i gynnig gweddïau i ddathlu'r cerrig milltir mewn bywyd.

Mae rhannau mawr o'r esgobaeth yn wledig, ond mae yna ardaloedd diwydiannol a masnachol pwysig yn datblygu'n barhaus o amgylch Glannau Dyfrdwy a Wrecsam. Mae'r llain arfordirol yn gartref i ganolfannau gwyliau traddodiadol ac mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig mewn llawer o rannau o'r esgobaeth.

Mae Llanelwy'n cynnig:

- Croeso i bawb;
- Cyfleoedd gwella bywyd i bawb;
- Ymrwymiad i feithrin rhoddion Duw i bawb;
- Dathlu a chadwraeth ein lleyfydd arbennig iawn;
- Ymrwymiad i gerdded ochr yn ochr â'r rhai sydd mewn angen;
- Calon weddigar yn ganolog i bob cymuned.



Llanelwy - Ceisiadau Rhestr 'A'

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Crëwyd
2018-000170	Y Santes Fair, Ysgeifiog (1534)	II	Ychwanegu to bychan dros yr hysbysfwrdd wrth giât yr eglwys i atal dŵr rhag mynd i mewn i'r rhan gaeedig.	08/02/2018
2018-000200	Sant Mihangel, Efenechtyd (1739)	II*	Codi arwydd newydd i'r eglwys.	03/03/2018
2018-000225	Y Santes Fair, Yr Wyddgrug (1237)	I	Atgyweiriadau i foeleri'r eglwys.	04/04/2018
2018-000228	Y Santes Fair, Yr Wyddgrug (1237)	I	Archwiliad nwy ar foeleri'r eglwys.	09/04/2018
2018-000262	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Gwaith adferol ar goed yn y fynwent.	16/04/2018
2018-000275	Sant Ioan Fedyddiwr, Penarlâg (1807)	II*	Atgyweiriadau i'r system wresogi sydd eu hangen oherwydd bod pibellau'n gollwng.	25/05/2018
2018-000278	Santes Tudful, Coedpoeth (1105)		Angen offer cegin a thoiled newydd.	29/05/2018
2018-000312	Sant Aelhaearn, Cegidfa (1298)	I	Gosod mesurydd nwy newydd.	14/06/2018
2018-000330	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Atgyweirio, ailosod ac ail-sgleinio llawr bloc canol yr eglwys.	21/06/2018
2018-000334	Sant Gwynog, Aberhafesp (1367)	II	Atgyweiriadau brys i amryw oleuadau.	22/06/2018
2018-000337	Y Santes Fair, Y Waun (1045)	I	Rhoi croes newydd ar do'r brif fynedfa.	23/06/2018
2018-000346	Y Santes Fair, Towyn (1775)	II*	Cynnal gwiriadau ar y diffoddwyr tân.	03/07/2018
2018-000347	Y Santes Fair, Towyn (1775)	II*	Tiwnio'r organ	03/07/2018
2018-000349	Y Santes Fair, Towyn (1775)	II*	Cynnal a chadw blynyddol ar y boeler	03/07/2018
2018-000353	Sant Trillo, Llandrillo-yn-Rhos (1092)	II*	Gwresogydd newydd yn lle un sydd wedi torri yn ardal y côr	06/07/2018
2018-000379	Dewi Sant, Bae Penrhyn (1002)		Gosod boeler gwres canolog newydd	31/07/2018
2018-000406	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Tiwnio'r organ	16/08/2018
2018-000407	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Glanhau'r llwybr a grisiau'r seler	16/08/2018
2018-000408	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Rhoi braced newydd ar y gwter yn lle'r un sydd wedi syrthio	16/08/2018
2018-000409	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Atgyweirio polyn baner	16/08/2018
2018-000410	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Clirio'r beipen ddŵr i'r de-ddwyrain o'r adeilad	16/08/2018
2018-000411	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Defnyddio SmartWater i'r gwaith plwm ar y to	16/08/2018
2018-000412	Sant Ioan Fedyddiwr, Hen Golwyn (1051)	II*	Diweddarau hysbysfwrdd yr eglwys	16/08/2018
2018-000417	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Ail-diwnio'r organ	17/08/2018
2018-000432	Sant Nicolas, Trefaldwyn (1568)	I	Atgyweirio'r dargludydd mellit ar ymyl y to ar y pen gorllewinol.	25/08/2018
2018-000441	Sant Cynfryd, Llanddulas (1625)	II*	Gosod lampau LED yn lle'r hen lampau y tu mewn i'r adeilad	29/08/2018

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Crëwyd
2018-000489	Sant Paul, Bae Colwyn (1057)	II*	Tynnu un goeden ceirios farw, tocio/siapiro 6 choeden celyn, torri un bisgwydden fesul rhan hyd lefel y ddaear, torri coeden ffawydden gopr fesul rhan er mwyn bod camera CCTV y dref yn gallu gweld tir yr eglwys.	24/09/2018
2018-000530	Sant Deiniol, Worthenbury (1708)	I	Rhoi pren newydd ar ben ucha'r drws yn lle'r pren sydd wedi'i ddifrodi, gosod cleon newydd ar 2 ddrws, tacluso'r gwaith paent o amgylch y drws, gwneud y seddau sy'n gwyo yn ddiogel, clirio'r cwteri a'r pibellau dŵr, tynnu'r llystyfiant oddi ar y rhagfur.	08/10/2018
2018-000560	Sant Deiniol, Worthenbury (1708)	I	Asesu sefyllfa'r goeden yn y fynwent gyda'r nod o gael gwared ar ganghennau rhydd sydd wedi pydru sy'n bargodi eiddo'r cymydog.	16/10/2018
2018-000625	Y Drindod Sanctaidd, Trefnant (1149)	II*	Ailbeintio hysbysfwrdd presennol yr eglwys.	08/11/2018
2018-000627	Sant Paul, Gorsedd (1536)	II	Gwaith cynnal a chadw ar y coed.	09/11/2018
2018-000631	Santes Ann, y Rhyl (1380)		Cynnal a chadw ac atgyweirio trydanol.	12/11/2018
2018-000662	Sant Paul, Gorsedd (1536)	II	Gwaith trwsio ar y dargludydd mellit.	20/11/2018
2018-000666	Sant Tomos, Penybontfawr (1643)	II	Symud braced cebl trydanol yn uwch i fyny'r mur gorllewinol.	22/11/2018
2018-000670	Sant Marc, Cei Conna (1185)	II	Tiwnio'r organ.	22/11/2018
2018-000671	Dewi Sant, Cei Conna (1187)		Tiwnio'r organ.	22/11/2018
2018-000672	Dewi Sant, Cei Conna (1187)		Ffenestri i'w hatgyweirio.	22/11/2018
2018-000715	Sant Elidan, Llanelidan (1737)	II*	Atgyweirio giât y cae.	13/12/2018
2018-000716	Sant Elidan, Llanelidan (1737)	II*	Rhoi unedau cegin newydd yn y festri.	13/12/2018

Llanelwy - Ceisiadau Rhestr 'B'

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y cofrestrwydd a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno a'r penderfyniad	
2018-000164	Sant Mihangel, Ffordun (1567)	II	Trwsio'r to.	03/02/18	22/03/18	47
2018-000171	Dewi Sant, Cei Conna (1187)	Anrhes-tredig	Trwsio'r Ion fynediad.	21/02/18	22/03/18	29
2018-000184	Santes Marged, Bodelwyddan (1173)	II*	Trin achosion o lyngyr pren ar lefel uchel gyda hylif pum seren.	19/02/18	22/03/18	31
2018-000186	Sant Paul, Bae Colwyn (1057)	II*	Clirio llystyfiant o'r pen gorllewinol ac ail-bwyntio'r mur lle bo angen.	04/04/18	19/05/18	45
2018-000189	Y Santes Fair, Treuddyn (1596)	II	Atgyweirio to a nenfwd yr eglwys.	21/02/18	10/04/18	48
2018-000192	Emaniwel, Bwcle (1165)	II	Gosod mainc yn y fynwent.	01/03/18	10/04/18	40
2018-000214	Y Santes Fair, Nercwys (1597)	II*	Atgyweirio plygiadau plwm a chwteri uwchben y tanc olew (gan ddefnyddio deunyddiau tebyg i'r gwreiddiol).	21/03/18	01/05/18	41
2018-000220	Yr Holl Seintiau, y Drenewydd (1365)	II	Atgyweirio cwteri a chopinau.	28/03/18	01/05/18	34
2018-000222	Y Santes Fair, Yr Wyddgrug (1237)	I	Trwsio gris.	11/04/18	01/05/18	20
2018-000240	Santes Fair Mag., Gwaenysgor (1492)	II*	Atgyweirio'r wal derfyn.	20/04/18	19/05/18	29
2018-000259	Sant Mihangel, Ffordun (1567)	II	Gosod 18 o ffitiadau golau LED yn lle'r ffitiadau golau halogen presennol.	15/05/18	19/06/18	35
2018-000294	Corpus Christi, Tremeirchion (1651)	II*	Ailadeiladu rhan o wal y fynwent.	06/06/18	19/06/18	13
2018-000304	Sant Siôr, Llandrillo-yn-Rhos (1091)	II	Atgyweiriadau hanfodol fel y nodwyd yn yr arolygiad pum-mlynyddol diweddar.	13/06/18	21/07/18	38
2018-000315	Sant Deiniol a Santes Marcella, Marchwiel (1731)	II*	Gosod mainc newydd gyda 3 phlac arni yn lle'r hen fainc, gosod un fainc newydd gyda phlac.	18/06/18	21/07/18	33
2018-000331	Sant Ioan Fedydd., Hen Golwyn (1051)	II*	Gwaith ar y to (cais ôl-weithredol).	16/08/18	04/09/18	19
2018-000338	Y Santes Fair, Y Waun (1045)	I	Atgyweirio pren sydd wedi'i ddfrodi ar waelod drysau gorllewinol yr ystlysau de a gogledd.	23/06/18	21/07/18	28
2018-000348	Y Santes Fair, Towyn (1775)	II*	Cyngor ar osod carped newydd yn lle'r carped presennol sydd yng nghanol yr eglwys.	12/07/18	21/07/18	9
2018-000355	Sant Pedr, Rhuthun (1142)	I	Gosod ffitiadau golau a socedi trydan newydd yn lle'r hen rai. Goleuadau argyfwng newydd, socedi pŵer ychwanegol a gwresogyddion trydan newydd yn siambr y clychau.	09/07/18	30/10/18	113

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y cofrestrwydd a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno a'r penderfyniad	
2018-000386	Sant Asaph a Sant Cyndeyrn, Llanasa (1224)	II*	Ail-baentio rhan fach lle mae'r paent wedi plicio.	07/08/18	25/09/18	49
2018-000426	Sant Ffraid, Llansanffraid-ym-mechain (1723)	II*	Ailaddurno ochr ddwyreiniol fewnol yr eglwys lle mae'r paent wedi plicio.	23/08/18	25/09/18	33
2018-000473	Sant Tysilio, Llandysilio (1444)	II	Atgyweirio wal y fynwent.	17/09/18	11/10/18	24
2018-000477	Sant Iago, Nantglyn (1679)	II	Atgyweirio paent yn plicio yn nenfwd yr eglwys.	23/09/18	11/10/18	18
2018-000478	Sant Tysilio, Llandysilio (1515)	II*	Amnewid llechi wedi llithro ar y prif do a gât y porth y fynwent. Amnewid estyll a rhoi llechi newydd ar y transept gogleddol.	18/09/18	11/10/18	23
2018-000481	Sant Cynfarch, Yr Hôb (1217)	I	Gosod socedi trydan allanol tu ôl i un o'r llifoleuadau yn ein mynwent.	19/09/18	11/10/18	22
2018-000511	Sant Cynfarch, Yr Hôb (1217)	I	Ailosod teils crib to cerrig ar do gogleddol yr eglwys.	03/10/18	13/12/18	71
2018-000515	Y Santes Fair a Beuno, Chwitfordd (1281)	I	Ymestyn y llwybr presennol ac atgyweirio hen lwybr yn y fynwent.	02/10/18	13/12/18	72
2018-000525	Sant Tysilio a'r Santes Fair, Meifod (1397)	I	Cael gwared ar hen blastr ar ran o wal ogleddol y Festri ac ail-blastro gan ddefnyddio plaster calch. (Ardal oddeutu 25 m.sg).	05/10/18	13/12/18	69
2018-000545	Sant Cynfarch, Yr Hôb (1217)	I	Atgyweirio grisiau rhestredig Gradd 2 o'r Fynwent i Kiln Lane.	12/10/18	13/12/18	62
2018-000564	Sant Aelhaiarn, Cegidfa (1298)	I	Atgyweirio plygiadau plwm rhwng to'r eglwys a'r tŵr a nodwyd yn yr Arolygiad Pum-mlynyddol.	21/11/18	13/12/18	22
2018-000653	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Atgyweirio wal y ffin ddwyreiniol.	21/11/18	13/12/18	22
2018-000683	Sant Cynfarch a'r Santes Fair, Llanfair Dyffryn Clwyd (1736)	II*	Addurno tu mewn i'r eglwys gyfan, gan gynnwys atgyweirio gwaith plastr sydd wedi'i ddfrodi.	27/11/18	13/12/18	16
2018-000717	Sant Elidan, Llanelidan (1737)	II*	Atgyweiriadau yn unol â'r Adroddiad Pum-mlynyddol - cafnau, amnewid mortar sment gyda mortar calch, amnewid llechi, ail-bwyntio, ailaddurno.	13/12/18	13/12/18	0

Llanelwy - Ceisiadau Hawleb Lawn

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y Canghellor a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno'r cais a'r penderfyniad	
2018-000149	Santes Marged, Bodelwyddan (1173)	II*	Rhoi ffitiadau LED newydd yn lle'r ffitiadau golau presennol a darparu goleuadau ychwanegol.	04/03/2018	10/04/2018	37
2018-000154	Sant Tyrnog, Llandyrnog (1455)	II*	Cynnal a chadw ac atgyweirio prif fynedfa'r eglwys.	20/01/2018	22/03/2018	61
2018-000196	Sant Mihangel, Llanfynydd (1230)		Codi canllaw haearn gyr y naill ochr a'r llall i'r prif ddrws.	05/03/2018	05/06/2018	92
2018-000205	Santes Marged, Bodelwyddan (1173)	II*	Darparu estyniad i'r fynwent.	04/03/2018	19/06/2018	107
2018-000238	Sant Tyrnog, Llandyrnog (1455)	II*	Ailadeiladu wal y fynwent a oedd wedi cwmpo yn Eglwys Sant Tyrnog.	29/05/2018	11/09/2018	105
2018-000269	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Darparu bracedi ar gyfer arddangos Baneri'r Llen Brydeinig Frenhinol ar achlysuron defodol.	29/05/2018	14/07/2018	46
2018-000151	Sant Nicolas, Trefaldwyn (1568)	I	Gosod offer telathrebu o fewn cwrtill yr eglwys.	18/01/2018	14/07/2018	177
2018-000153	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Gosod baner flaenorol cangen Abergele'r Llu Awyr Brenhinol ar y mur gogleddol tu mewn i'r eglwys.	22/01/2018	22/03/2018	59
2018-000156	Yr Holl Saint, Wrecsam (1783)		Gosod mosaig, yn seiliedig ar fedydd, y tu ôl i'r bedyddfaen ar ochr orllewinol yr eglwys.	23/01/2018	22/03/2018	58
2018-000160	Sant Tysilio, Llandysilio (1444)	II	Gosod canllaw.	04/03/2018	05/06/2018	93
2018-000161	Sant Asaph a Sant Cyndeyrn, Llanasa (1224)	II*	Gwerthu 12 sedd a blaen un rhes o seddau, i greu gofod cymdeithasol yng nghefn yr eglwys.	22/02/2018	05/06/2018	103
2018-000167	Sant Ffraid, Glan Conwy (1507)	II	Datgladdu lludw Mr Tim Brownson.	14/02/2018	12/10/2018	240
2018-000175	San Silyn, Wrecsam (1785)	I	Gosod bracedi metel i arddangos dwy faner gatrawd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn yr ystlys ogleddol, ac un faner Cymdeithas y Gwarchodlu Cymreig yn yr ystlys ddeheuol.	01/05/2018	14/07/2018	74
2018-000195	Sant Gwynog, Aberhafesp (1367)	II	Gosod distiau ac estyll llawr newydd yn lle rhai sydd wedi pydru a chael gwared ar 2 sedd.	28/02/2018	05/06/2018	97
2018-000199	Sant Ffraid, Llansantffraid-ym-Mechain (1723)	II*	Diweddarau'r offer trydanol a gosod goleuadau LED yn lle'r hen rai.	10/03/2018	14/07/2018	126
2018-000215	Y Santes Fair, Llanfair Talhaearn (1764)	II*	Gosod drws gwydr, ail-leoli'r bedyddfaen a gwaith i wella'r tanc trochi ar gyfer bedyddio.	04/07/2018	12/10/2018	100

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y Canghellor a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno'r cais a'r penderfyniad	
2018-000217	Deiniol Sant, Eyton (1707)		Aildrefnu mewnol.	17/05/2018	11/09/2018	117
2018-000218	Sant Mihangel, Llanfynydd (1230)		Ymestyn llwybr y fynwent.	26/03/2018	05/06/2018	71
2018-000219	Sant Pedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd (1461)	II*	Atgyweirio'r organ.	27/04/2018	14/07/2018	78
2018-000231	Sant Paul, Bae Colwyn (1057)	II*	Darparu consol organ bibell symudol newydd, gan gynnwys troedfwrdd a mainc ac adnewyddu'r bysellfyrddau.	11/04/2018	05/06/2018	55
2018-000232	Y Drindod Sanctaidd, Maesglas (1208)	II	Gwneud addasiadau er mwyn darparu ystafell gyfarfod/swyddfa a chapel caeedig.	11/04/2018	05/06/2018	55
2018-000241	Sant Paul, Pentre Brychdyn (1031)		Tynnu simnai boeler nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach.	07/06/2018	26/07/2018	49
2018-000252	Sant Mihangel, Caerwys (1661)	II*	Gosod system drydanol i droi cloc yr eglwys sydd yn nhŵr yr eglwys.	08/05/2018	14/07/2018	67
2018-000253	Y Santes Fair, Towyn (1775)	II*	Gosod braced wal sy'n plygu i ddal teledu.	21/06/2018	26/07/2018	35
2018-000289	Sant Ioan, Rhosnesni (1822)		Adnewyddu toiledau'r eglwys a darparu toiled hygyrch newydd.	27/09/2018	30/10/2018	33
2018-000336	Sant Elian, Llanelian (1523)	II*	Adeiladu cofeb ryfel newydd.	16/08/2018	11/10/2018	56
2018-000344	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Gosod canllaw diogelwch ar risiau'r pulpud.	19/07/2018	11/10/2018	84
2018-000416	Sant Mihangel, Abergele (1025)	II*	Gosod sgrin a thaflunydd clyweledol.	26/09/2018	30/10/2018	34
2018-000424	Y Santes Fair, Y Waun (1045)	I	Rhaglen o atgyweiriadau brys a nodwyd yn yr adroddiad pum-mlynnyddol diweddar.	22/08/2018	11/10/2018	50
2018-000438	Eglwys Crist, Bwlchgwyn (1402)		Aildrefnu.	03/09/2018	11/10/2018	38
2018-000443	Sant Ethelwold, Shotton (1320)	II	Atgyweirio, ailbeintio ac ailosod 2 bibell ddŵr sydd wedi'u difrodi, palu draeniau a ffosydd cerrig newydd, gosod bocsys newydd ar ben y pibellau dŵr. Atgyweirio rhannau sydd wedi'u difrodi o'r llwybr concriid.	30/08/2018	11/10/2018	42
2018-000447	Sant Cadwaladr, Llangadwaladr (1468)	II	Trwsio to'r eglwys.	03/09/2018	30/10/2018	57
2018-000471	Sant Cynfarch a'r Santes Fair, Llanfair Dyffryn Clwyd (1736)	II*	Datgymalu a thynnu'r organ dros dro ar gyfer ei glanhau.	14/09/2018	13/12/2018	90

PWY yw PWY: Aelodaeth Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth Llanelwy

Roger Dutton Canghellor
Owain Llyr Williams Cofrestrydd

Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth:

Menna Gerrard Cadeirydd y Pwyllgor a Phensaer
Yr Hybarch Barry Wilson Archddiacon Trfaldwyn
Yr Hybarch Andy Grimwood Archddiacon Llanelwy
Yr Hybarch John Lomas Archddiacon Wreccsam
Y Parchedig Ganon Nia Morris ... Clerig
Kirsty Henderson Cyngorydd Cadwraeth Adeiladau, Awdurdod Lleol
Terry Parry Peiriannydd Strwythurol
Robert Silvester Archaeolegydd
John Smout Artist a Hanesydd Pensaernïol
Anthony Williams Cyfreithiwr
John Williams Pensaer
Y Parchedig Jason Bray Clerig
Dave Raggett Cyngorydd Clychau
John Hosking Cyngorydd Organau

Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor:

Diane McCarthy Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Michael Plane Arolygydd Eglwysi'r Esgobaeth
Rachel Cutler Swyddog Cadwraeth a Datblygu Eglwysi ac Ysgrifennydd y Pwyllgor



Esgobaeth Bangor

Nid oedd Esgobaeth Bangor yn gallu cyflwyno adroddiad ar geisiadau hawlebau 2018 adeg cyhoeddi'r adroddiad ond hoffai gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i gefnogi ei hymrwymiad i gynnal a chadw a gofalu am eu hadeiladau eglwysig.

Mae 27 Ardal Weinidogaeth (plwyfi) Esgobaeth Bangor yn gyfrifol am gynnal a gofalu am dros 180 o adeiladau eglwysig, y mwyafrif ohonynt o bwysigrwydd sylweddol o ran eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Mae gwariant blynyddol ar adeiladau'n costio dros £1.1 miliwn, gyda chyfran fawr ohono'n cael ei godi gan gyfraniadau gwirfoddol gydag ymrwymiad amser cyfatebol gan wirfoddolwyr diflino ym mhob cymuned eglwysig. Mae'r dasg eithriadol hon o stiwardio, gofalu a chynnal a chadw'n digwydd ar adeg pan fo'e esgobaeth yn ei chyfanrwydd wedi ymrwmo i adnewyddu ei hegwyddorion craidd o addoli Duw, sicrhau twf yn yr Eglwys, a charu'r byd. Yn y cyd-destun hwn, mae ein hetifeddiaeth o adeiladau eglwysig gogoneddus yn cyflwyno her sylweddol a chyfleoedd cenhadu gwerthfawr.

Er mwyn wynebu'r heriau hyn ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn, mae'r esgobaeth wedi canolbwyntio ar ffurfio pedair elfen ei strategaeth cadwraeth, cynnal a chadw a datblygu adeiladau eglwysig 2018.

Y cyntaf yw cyflwyno Penseiri Ardaloedd Gweinidogaeth ac Adroddiadau Ezra. Mae Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysi'r Esgobaeth wedi penodi penseiri o dri practis (Donald Insall Associates, Catalina Architecture & Design, Kepczyk Pearce Sanderson) fel Penseiri Ardaloedd Gweinidogaeth.

Dewiswyd y penseiri ar sail eu gwaith llwyddiannus yn yr esgobaeth, eu profiad sylweddol fel penseiri cadwraeth eglwysig, eu brwdfrydedd am waith yn yr esgobaeth, a'r sgiliau pensaernïol creadigol a thechnegol amrywiol y gallant eu cynnig ar draws eu timau.

Bydd y Penseiri Ardaloedd Gweinidogaeth hyn yn cefnogi Ardal Weinidogaeth drwy (i) archwilio portffolio'r Ardal Weinidogaeth o adeiladau eglwysig unwaith bob pum mlynedd, gan lunio Adrodd Ezra cyfunol; (ii) cynghori ar weithredu gwaith cadwraeth, cynnal a chadw a gwella a rheoli prosiectau; (iii) bod yn brif gyswllt ar gyfer materion yn ymwneud ag adeiladau eglwysig, yn cynnwys argyfyngau; (iv) darparu mewnbwn creadigol yng nghamau cynharaf prosiect datblygu adeilad posibl.

Mae Adroddiad Ezra'n casglu argymhellion cadwraeth, cynnal a chadw a gwella ar gyfer holl eglwysi'r Ardal Weinidogaeth mewn un adroddiad manwl hawdd ei ddefnyddio, gan ddarparu'r sail ar gyfer cynllun cadwraeth, cynnal a chadw a gwella cyfun ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth. Mae pob Adroddiad Ezra yn nodi (i) gwaith brys, yn cynnwys mynd i'r afael â risgiau iechyd a diogelwch, gwaith ar namau strwythurol, a gwaith i fynd i'r afael â difrod i ffabrig arwyddocaol; (ii) gwaith cynnal a chadw a gwella i'r ffabrig presennol yn ystod blynyddoedd 1-5; (iii) gwaith cynnal a chadw parhaus / rheolaidd



yn ystod blynyddoedd 1-5; (iv) gwaith i wella'r amgylchedd aesthetig ac ysbrydol a argymhellir yn ystod blynyddoedd 1-5; (v) gwaith i wella hygyrchedd a argymhellir yn ystod blynyddoedd 1-5; a (vi) gwaith cynnal a chadw a gwella'r ffabrig presennol sy'n debygol o fod angen ei wneud yn ystod blynyddoedd 6-15.

Mae Adroddiad Ezra yn darparu amcangyfrifon costau ar gyfer y gwaith yn y chwe chategori hefyd. Gwelir eisoes bod cael un practis penseiri yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ardal Weinidogaeth gyfan yn gallu cynnig manteision sylweddol, nid yn unig i adeiladau penodol o fewn Ardal Weinidogaeth, ond y ffaith bod pob eglwys mewn Ardal Weinidogaeth yn cael ei harolygu yr un pryd. Mae swyddfeydd a phwyllgorau Esgobaeth yn elwa hefyd ar y partneriaethau agosach sy'n bosibl yn sgil gweithio gyda llai o bractisau penseiri, ac o gysoni disgwyliadau o ran gweledigaeth, strategaeth a phrosesau'n well. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae Penseiri Ardal Gweinidogaeth ac Adroddiadau Ezra'n darparu cyngor proffesiynol o safon uchel ar gadwraeth, cynnal a chadw a gwella adeiladau, gan helpu i sicrhau bod y portffolio o adeiladau eglwysig yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf i gefnogi cenhadaeth yr Eglwys yn yr Ardal

Weinidogaeth, a bod yr Ardal Weinidogaeth yn gallu cyflawni ei rhwymedigaeth i ofalu am asedau treftadaeth arwyddocaol.

Ail elfen strategaeth cadwraeth, cynnal a chadw a datblygu adeiladau eglwysig yr esgobaeth yw annog Cynllunio Datblygu Eiddo o fewn pob Ardal Weinidogaeth. Yng nghyd-destun gwaith cynllunio tebyg yn yr ardaloedd cenhadaeth a chyllid, mae Ardaloedd Gweinidogaeth yn cael eu hannog i lunio cynllun eiddo strategol cadarnhaol a gorfodol ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth. Dyma gyfle i fapio'r holl adeiladau, safleoedd, eiddo ac asedau tir sy'n eiddo i'r Eglwys ac yn cael eu defnyddio ganddi ar hyn o bryd; yna canfod gweledigaeth o le cysegredig, lle hyblyg, lle cymunedol a llety a fyddai'n helpu i gyflawni cenhadaeth yr Ardal Weinidogaeth. Nod y cynlluniau yw bod yn obeithiol; yn realistig; a chyflawni rhagoriaeth.

Trydedd elfen strategaeth cadwraeth, cynnal a chadw a datblygu adeiladau eglwysig yr esgobaeth yw ymarfer cynllunio strategol ledled yr esgobaeth o dan y teitl Stones Shout Out. Mae'r ymarfer yn deillio'n rhannol o bryder bod nifer o brosiectau adeiladu cyfalaf mawr yn cael eu datblygu ar draws yr esgobaeth, gyda'r perygl o fod yn rhy uchelgeisiol o ran nifer

a chwmpas y prosiectau a gynlluniwyd. Roedd yn deillio hefyd o awydd cadarnhaol i wneud penderfyniadau esgobaeth gyfan am brosiectau datblygu allweddol, er budd Ardaloedd Gweinidogaeth (o ran bod yn sicr o gefnogaeth yr esgobaeth neu fod yn ymwybodol o bryderon yr esgobaeth) cyllidwyr allanol (o ran gallu bod yn sicr o fframwaith strategol ar gyfer ceisiadau grant mawr), a'r esgobaeth yn ei chyfanrwydd (o ran cyfeirio adnoddau i leoliadau sy'n arwyddocaol yun strategol, a gwneud penderfyniadau anodd weithiau am leoliadau allweddol mewn modd gofalus, gweddigar a chynlluniedig). Mae'r ymarfer cynllunio strategol wedi nodi chwe phrosiect adeiladu cyfalaf yn ddiweddar, gyda gwaith yn mynd rhagddo ar becynnau dichonolrwydd a chyllido.

Pedwaredd elfen strategaeth cadwraeth, cynnal a chadw a datblygu adeiladau eglwysig yr esgobaeth yw cyflwyno System Hawlebau Ar-lein yn yr esgobaeth. Rhagwelir y bydd mwyafrif y ceisiadau dros y blynyddoedd nesaf yn cael eu cyflwyno gan Benseiri Ardaloedd Gweinidogaeth ar ran Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth. Mae staff cymorth ychwanegol wedi'u recriwtio yn y timau esgobaeth canolog i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system.



PWY yw PWY: Aelodaeth Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Bangor

Norman Doe Canghellor
Gwyn Davies Cofrestrydd

Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth:

Y Tra Pharchedig Kathy Jones Cadeirydd y Pwyllgor a Deon Eglwys Gadeiriol Bangor
Y Parchedig Lindsay Ford Clerig
Elinor Gray-Williams Pensaer
Yr Hybarch Andy Herrick Archddiacon Ynys Môn
Yr Hybarch Andrew Jones Archddiacon Meirionnydd
Yr Hybarch Mary Stallard Archddiacon Bangor
Andrew Kepczyk Pensaer
Frances Lynch Llewellyn Archaeolegydd
Pam Odam Aelod o Gyngor yr Esgobaeth
Kenneth Searson Aelod o Gyngor yr Ardal Weinidogaeth
Y Parchedig Naomi Starkey Clerig
Y Parchedig Ganon Angela Williams Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth
Rory Wilson Pensaer
Joan Yates Aelod o'r Is-bwyllgor Grantiau

Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor:

Siôn Rhys Evans Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Alun Jones-Davies Arolygydd Bwrdd Persondai



Esgobaeth Tyddewi

Mae Esgobaeth Tyddewi wedi'i henwi ar ôl nawddsant Cymru. Mae ei heglwys gadeiriol yn Sir Benfro yn un o drysorau'r genedl.

Mae'r Esgobaeth yn cynnwys siroedd Penfro, Ceredigion a Chaerfyrddin ac yn gofalu am 318 o eglwysi. Mae mwyafrif y rhain yn eglwysi gradd I, II a II*, gyda dim ond 80 eglwys heb ei rhestru.

Mae Esgobaeth Tyddewi yn un o chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, talaith annibynnol o'r Gymundeb Anglicanaidd. Gwahanodd yr Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Loegr ym 1920 ac mae'n dathlu canmlwyddiant ei sefydlu yn 2020.

Mae'r Esgobaeth yn cwmpasu arwynebedd o 573,450 hectar ac yn cynnwys archddiaconiaethau Tyddewi, Ceredigion a Chaerfyrddin.

Yr Esgobaeth, ffordd hynafol o drefnu'r eglwys, yw'r arwynebedd (daearyddol fel arfer) y mae Esgob yn arwain Cenhadaeth a Gweinidogaeth ynddo. Esgob cyfredol Tyddewi yw'r Gwir Barchedig Joanna Penberthy. Hi yw'r fenyw gyntaf i gael ei phenodi'n esgob yn yr Eglwys yng Nghymru, yn dilyn penderfyniad y Corff Llywodraethol i alluogi ordeinio merched yn esgobion ym mis Medi 2013.

Wrth i'r Esgobaeth ddynesu at ganmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru mae'n newid mewn cymaint o ffyrdd, yn cynnwys cyflwyno Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol, a ddylai fod wedi'u cwblhau erbyn 2020.

Ar ôl i Ysgrifennydd yr Esgobaeth ymddeol ar ddiwedd 2017, ad-drefnwyd Swyddfa'r Etholaeth gan gynnwys gwneud newidiadau i staff a gwelliannau i'r ffyrdd mae'n ymwneud ag eglwysi a phobl yr Esgobaeth.



Tyddewi - Ceisiadau Rhestr 'A'

Rhif y Cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Crëwyd
2018-000318	Santes Edith, Llanedi, (3503)	II	Ail-adeiladu llwybr troed y fynwent - gosod concriid newydd.	19/07/2018
2018-000365	Sant Womar, Mynwar (2840)	II	Plannu coeden geirios er cof am warden yr eglwys.	18/07/2018
2018-000387	Dewi Sant, Abergwili (3486)	II	Gosod ffrâm drws ar ffurf bwa newydd ym mur dwyreiniol yr eglwys.	07/08/2018
2018-000428	Sant Gartheli, Abermeurig (3618)		Datgysylltu a chael gwared â hen oleuadau'r eglwys. Gosod 5 golau LED yn yr eglwys a'u symud o'u safle presennol. Gosod ffitiadau golau allanol newydd uwchben drws yr eglwys. Gosod llifolau newydd dros y maes parcio sy'n cael ei reoli gan switsh golau tu allan i'r adeilad.	24/08/2018
2018-000690	Sant Padarn, Llanbadarn Trefeglwys (3533)		Adnewyddu'r bylbiau golau yn y brif gangell.	28/11/2018
2018-000713	Sant Nicolas a Sant Ioan, Monkton (2869)	I	Atgyweirio ac adnewyddu gatau'r fynedfa.	11/12/2018

Tyddewi - Ceisiadau Rhestr 'B'

Rhif y Cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y cofrestrwyd a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno a'r penderfyniad	
2018-000257	Sant Brynach, Pontfaen (2974)	II	Gosod cadeiriau newydd ar gyfer y gynulleidfa.	14/05/2018	18/07/2018	65
2018-000286	Sant Steffan, Llansteffan (3007)	II*	Archwilio'r cyfarpar sy'n dal y 3ydd a'r 5ed cloch a gwneud unrhyw newidiadau neu addasiadau angenrheidiol. Brwsio ac ailbeintio'r gwaith metel sydd o amgylch y clychau.	05/06/2018	01/08/2018	57
2018-000310	Sant Cain, Llangain (eglwys flaenorol) (3702)		Ail-adeiladu'r wal derfyn gerrig a gafodd ei difrodi gan dractor.	05/07/2018	18/07/2018	13
2018-000319	Santes Edith, Llanedi, (3503)	II	Ail-rendro wal y gangell gyda rendr sment calch ac ailadeiladu ac atgyweirio wal talcen y crypt.	19/06/2018	18/07/2018	29
2018-000343	Capel Dewi Sant, Llanwrda (3443)		Bydd wal derfyn y fynwent yn cael ei hailadeiladu gan ddefnyddio cerrig sydd yno'n barod.	27/06/2018	18/07/2018	21

Rhif y Cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y cofrestrwyd a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno a'r penderfyniad	
2018-000356	Sant Cyndeyrn, Llangyndeyrn (3512)	II*	Gosod sedd dderw, er cof am William Thomas, ym mynwent yr eglwys.	13/07/2018	03/08/2018	21
2018-000364	Sant Steffan, Llansteffan (3007)	II*	Atgyweirio drws gorllewinol yr eglwys a ffrâm y drws gan ddefnyddio derw wedi'i sychu o'r ardal leol, cael gwared ar lystyfiant ac ail-bwyntio wal y tŵr, peintio pibell ddŵr, gosod sêl blwm ar y talog uwchben ffenestr y tŵr a rhoi olew patiniad ar ffenestri plwm.	17/07/2018	19/09/2018	64
2018-000383	Y Santes Fair, Spittal (3552)	II	Ail-beintio'r tu mewn a thrwsio darnau bach o blastr diffygiol.	02/08/2018	19/09/2018	48
2018-000389	Dewi Sant, Abergwili (3486)	II	Adnewyddu'r llawr yn y siambr lleihau sŵn.	08/08/2018	19/09/2018	42
2018-000392	Sant Padrig, Pencarreg (3146)	II	Mae rhan o'r wal gynnal ar ochr ddeheuol y fynwent wedi cwmpo i'r caeau cyfagos. Mae gwaith atgyweirio wedi'i ddechrau i ailadeiladu'r wal yn y darn hwn, gan ddefnyddio'r cerrig sydd yno'n barod.	10/08/2018	19/09/2018	40
2018-000433	Sant Tudwal, Llanstadwell (2825)	II	Ailbeintio ochrau'r 3 ffenestr ar wal ddeheuol yr eglwys.	30/08/2018	26/11/2018	88
2018-000485	Sant Pedr, Llanbedr Felffre (3171)	II	Atgyweirio'r ffenestr orllewinol.	19/09/2018	16/10/2018	27
2018-000490	Y Santes Fair, Porth Tywyn (2949)	II	Gosod drysau newydd yng nghanol gorllewinol yr eglwys oherwydd difrod.	11/10/2018	31/10/2018	20
2018-000579	Y Drindod Sanctaidd, Felinfoel (2667)	II	Tynnu'r brics coch oddi ar simnai nad yw'n cael ei defnyddio mwyach.	21/10/2018	31/10/2018	10
2018-000598	Santes Tudful, Llechryd (3757)		Gwaith atgyweirio brys ar waith cerrig yn rhagfur bwa'r gangell.	29/10/2018	31/10/2018	2
2018-000600	Y Santes Fair, Spittal (3552)	II	Atgyweirio ffenestri gwydr lliw.	03/11/2018	10/12/2018	37
2018-000620	Sant Ceinwr, Llangynnwr (3526)	II	Atgyweirio'r giât mynediad.	07/11/2018	26/11/2018	19

Tyddewi - Ceisiadau Hawleb Lawn

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y Canghellor a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno'r cais a'r penderfyniad	
A1939	Sant Ceinwr Llangynnwr	II	Ar gyfer tynnu, adfer ac ailosod dwy ffenestr yn y cyntedd.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1941	Sant Sadwrn, Llansadwrn	II	Gosod blychau hopper ymhob ffenestr, ac eithrio'r ffenestr gwydr lliw.	19/02/2018	28/05/2018	20
A1942	Y Santes Fair, Caeriw	I	Adeiladu cegin fechan ar ben gorllewinol yr ystlys ddeheuol.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1942A	Sant Ismael, Llanismel	II	Codi cofeb yn y fynwent, i goffâu colli'r Hirano Mau.	19/02/2018	27/05/2018	19
A1943	Sant Pedr, Wdig	II	Tynnu eitemau o'r eglwys sydd wedi cau.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1943A	Sant Steffan, Llansteffan	II*	Derbyn i'r Eglwys ddarllenfa bren, plât casglu pres, pâr o ffiolau allor pres, cwpan arian, plât cymun arian, cwpan arian, jwg metel gwyn bach ac ati.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1944	Sant Gwyndaf, Llanwnda	II*	Derbyn eitemau o Wdig.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1945	Neuadd y plwyf, Llanwnda ac Wdig		Derbyn eitemau o Wdig.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1946	Eglwys yr Ysbryd Glân, Hubberston		Gwaith ar y cyntedd, gosod ffenestri newydd yn lle'r rhai mewn fframiau metel a pheintio'r cyntedd a'r brif neuadd.	19/02/2018	16/05/2018	70
A1947	Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth	II	Gosod sgriniau teledu newydd yn lle'r rhai presennol ac ychwanegu dwy arall.	09/04/2018	31/08/2018	25
A1948	Eglwys Sant Brynach, Dinas Cross		Ailosod to'r festri, gwaith trwsio mewnol ar nenfwd canol yr eglwys a thacluso nenfwd y gangell.	09/04/2018	27/05/2018	19
A1949	Santes Katherine a San Pedr, Aberdaugleddau	II*	Adnewyddu'r capel coffa.	09/04/2018	27/05/2018	19
A1951	Eglwys Santes Fair, Dinbych-y-pysgod	I	Adfer y gwaith maen ar ffenestr orllewinol yr eglwys ac ar y bwa dros y drws gorllewinol.	09/04/2018	13/11/2018	18
A1952	Eglwys Santes Fair, Dinbych-y-pysgod	I	Atgyweirio to'r ystlys ddeheuol.	09/04/2018	26/02/2019	53
A1953	Eglwys Santes Fair, Dinbych-y-pysgod	I	Ailaddurno'r gangell, canol yr eglwys a'r ystlys ddeheuol.	09/04/2018	26/02/2019	53

Rhif y cais	Eglwys	Gradd	Crynodeb o'r gwaith	Dyddiad cyflwyno gan yr ymgeisydd	Dyddiad penderfyniad y Canghellor a nifer y dyddiau rhwng cyflwyno'r cais a'r penderfyniad	
A1954	Sant Mihangel a'r Holl Angylion, Coshaston	II	Ailadeiladu rhan o fur terfyn dwyreiniol y fynwent, ail-bwyntio gweddill y waliau cerrig, arbed y rheiliau cylchol sydd ar ben y wal, adfer ac adleoli tri bedd.	09/04/2018	11/10/2018	42
A1955	Y Drindod Sanctaidd, Felinfoel	II	Gosod boeler gwres canolog newydd.	09/04/2018	27/05/2018	19
A1956	Sant Lawrence, Sant Lawrence, Wolfscastle	II	Atgyweirio a gosod lloriau pren newydd yng nghanol yr eglwys.	09/04/2018	13/11/2018	20
A1957	Y Santes Fair, Llanllwch	II*	Gosod hysbysfyrdau pren gyda blaen gwydr ar y naill ochr a'r llall i'r brif fynedfa a gosod meinciau pren newydd y tu mewn i'r porth mynedfa yn lle'r rhai sydd yno.	09/04/2018	17/09/2018	161
A1959	Eglwys Sant Mihangel Aberystwyth	II	Ail-leoli uchelseinyddion y system sain.	02/07/2018	31/08/2018	25
A1963	Eglwys Sant Gwyndaf, Llanwnda	II*	Ailsefydlu'r festri.	02/07/2018	13/11/2018	20
A1964	Eglwys y Santes Fair, Casnewydd	II*	Gosod canllawiau pres i arwain o ardal y côr a'r gangell.	02/07/2018	26/02/2019	53
A1967	Eglwys Santes Florence, St Florence	II*	Adfer tŵr yr eglwys a thynnu allan 8 sedd.	02/07/2018	22/11/2018	29
A1592	Sant Mathew, Y Borth		Adnewyddu hawleb ar gyfer archebu safle bedd.	24/09/2018	20/11/2018	27
2018-000272	Y Santes Fair, Angle (3087)	II	Codi obelisc ithfaen fel marciwr bedd.	24/05/2018	20/12/2018	210
2018-000276	Sant Cynog, Llangynog (3703)	II*	To newydd ar y festri (ôl-weithredol gan fod dŵr yn dod i mewn ger blwch ffiwsiau).	29/05/2018	20/12/2018	205
2018-000339	Dewi Sant, Abergwili (3486)	II	Gosod dau ganllaw ar risiau'r gangell.	16/07/2018	20/12/2018	157
2018-000292	Sant Clement, Neyland (2824)		Gosod croes bren ar wal allanol yr eglwys.	08/07/2018	20/12/2018	165

PWY yw PWY: Aelodaeth Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Tyddewi

Nick Cook Canghellor
Arwel Davies Cofrestrydd

Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth:

Andrew Faulkner Cadeirydd y Pwyllgor a Phensaer
Yr Hybarch Paul Mackness Archddiacon Tyddewi
Yr Hybarch Will Strange Archddiacon Ceredigion
Yr Hybarch Dorrien Davies Archddiacon Caerfyrddin
Alun Adams Cynghorydd Ffenestri a Gwydr Lliw
Zoe Bevans-Rice Archaeolegydd a Chynrychiolydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol
Tom Lloyd Cadeirydd y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi
Robert Scourfield Cynrychiolydd Cymdeithasau Amwynderau
Trefor Thorpe Pensaer
Y Parchedig Ganon Philip-Wyn Davies ... Clerig
Peter Holden Pensaer
Ian Hastilow Cynghorydd Clychau
Gorden Kilby Cynghorydd Organau
Shaun Kimsey Cynghorydd Trydanol
Anthony Kleinberg Cynghorydd Gwaith Cerrig

Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth:

